# Bwrdd Taliadau Annibynnol

## Rhaglen waith strategol

## 2022-26

(Diweddarwyd mis Mai 2023)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Ein diben a’r egwyddorion sy’n ein tywys

## Ein diben

Rydym yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o’r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i’r pwrs cyhoeddus yng Nghymru.

## Yr egwyddorion sy’n ein tywys

- Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
- Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.
- Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

# Ein nodau

**Ein nodau**

- Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd.
- Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

**Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.**

# Ein hamcanion strategol

**Ein hamcanion strategol**

- **PENDERFYNIAD YMATEBOL**: cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.
- **PENDERFYNIAD SYMLACH**: symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i'r Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.
- **PENDERFYNIAD CYNALIADWY**: cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.
- **HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU**: ymgysylltu'n effeithiol â'r Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

# Ein rhaglen waith strategol

Mae ein rhaglen waith strategol, y cytunwyd arni yn 2022, yn pennu ein dull gweithredu ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Bydd y rhaglen yn llywio'r adolygiadau blynyddol o'r Penderfyniad yn ogystal â llunio Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd, yng nghyd-destun y cynigion Diwygio’r Senedd.

Mae’r rhaglen waith strategol yn cynnwys pum adolygiad thematig, a phob un yn cael ei gydlynu gan aelod arweiniol o’r Bwrdd:

- **Ffyrdd o Weithio** – Syr David Hanson
- **Symleiddio** – Hugh Widdis
- **Cymorth staffio** – Mike Redhouse
- **Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol** – Jane Roberts
- **Taliadau a chymorth personol i’r Aelodau** – Elizabeth Haywood

# Ein rhaglen waith strategol

Bydd yr adolygiadau thematig yn cael eu cyflwyno'n raddol yn ystod tymor y Senedd.

Caiff y gwaith ei lywio gan waith casglu tystiolaeth ac ymchwil, gan gynnwys gwybodaeth gymharol o ddeddfwrfeydd eraill a phrofiadau a safbwyntiau'r Aelodau, staff cymorth a staff y grwpiau gwleidyddol, a rhanddeiliaid eraill.

Bydd y Bwrdd yn ymgysylltu â Chomisiwn y Senedd, yr Aelodau, eu staff cymorth a staff y grwpiau i gyfrannu at yr adolygiadau hyn ar adegau priodol.

Bydd y Bwrdd yn ceisio cydgysylltu'r gwaith ymgysylltu, lle bo modd, â gwaith arfaethedig Comisiwn y Senedd i leihau'r baich ar Aelodau a staff, a dyblygiad.

# Ffyrdd o Weithio – Syr David Hanson

## Cwmpas

- Ystyried effaith a photensial ffyrdd newydd o weithio i'r Aelodau a'u staff, megis gweithio hybrid a gweithio o bell, a phwysigrwydd cynaliadwyedd ac amrywiaeth a chynhwysiant. Rhagwelir y gallai'r gwaith hwn arwain at adolygu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr maes o law, a gallai hefyd fod yn gymwys i lwfansau eraill, e.e. costau teithio (Aelodau a staff) a gwariant llety preswyl.

## Amserlen: 2022-24

- **Cwblhawyd:** Roedd cam 1 yn ystod 2022-23 yn cynnwys cyfweliadau â'r Aelodau yn ystod hydref 2022 ac mae wedi arwain at addasiadau i'r Penderfyniad yn sgil materion fel gweithio gartref ac asesiad Offer Sgrin Arddangos (DSE).
- **Y camau nesaf**:Bydd cam 2 yn ystod 2023-24 yn ystyried dulliau gweithredu mewn seneddau eraill a gofynnir hefyd am safbwyntiau pellach gan staff cymorth yr Aelodau a staff y grwpiau yn yr hydref, a hynny fel rhan o waith ymgysylltu ehangach.

## Cysylltiadau â Diwygio'r Senedd

- Model etholiadol

## Ymgysylltiad/effaith y Comisiwn

- Sylweddol – gan gynnwys Cymorth Busnes i'r Aelodau (MBS) a gwasanaethau ehangach y Comisiwn

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Chweched Senedd

- Sicrhau bod cymorth priodol ar gyfer gweithio gartref/hybrid i staff a'r Aelodau
- Amgylcheddau gweithio diogel (gweithio ar eich pen eich hun ac ati)

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Seithfed Senedd

- Adolygu maint y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a'r posibilrwydd o ailstrwythuro'r lwfans – e.e. cyllid ar gyfer rhentu swyddfeydd/cyfleustodau ac ar gyfer ymchwil/ymgysylltu
- Lwfans cychwyn swyddfa

# Symleiddio – Hugh Widdis

## Cwmpas

- Adolygu'r Penderfyniad, gan gynnwys lleihau rheolaethau diangen a symleiddio'r geiriad a gweithdrefnau, i'w gwneud mor syml â phosibl i'r Aelodau a staff cymorth ddeall y Penderfyniad, pa gyllid fydd ar gael a sut i'w hawlio, ac i'w gwneud mor syml â phosibl i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gymhwyso'r drefn yn effeithlon, yn ddarbodus a chan olygu llai o risg o anghydfod.

## Amserlen: 2022-24

- **Cwblhawyd:**Symleiddio'r iaith ym Mhenderfyniad 2023-24 i'w wneud yn gliriach ac yn haws gwneud hawliadau, gyda chynnydd yn y swm gwariant sy'n gofyn am dri dyfynbris a chynhyrchu fersiwn o'r Penderfyniad gyda newidiadau wedi'u holrhain
- **Camau nesaf:** adolygiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymgysylltu â'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, yr Aelodau a staff cymorth ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol.

## Cysylltiadau â Diwygio'r Senedd

- Nid yw'n ddibynnol ar Ddiwygio'r Senedd.

## Ymgysylltiad/effaith y Comisiwn

- Sylweddol – rôl Cymorth Busnes i'r Aelodau, canllawiau a rheolaethau rheoleiddio eraill

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Chweched Senedd

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i'r Penderfyniad yn cyd-fynd â'r egwyddor o symleiddio
- Eglurder ynghylch rolau'r Bwrdd a'r Comisiwn o ran rheoleiddio gwariant yr Aelodau

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Seithfed Senedd

- Penderfyniad a phroses hawlio sy'n hawdd i ddefnyddwyr ei llywio
- Dileu dyblygu darpariaeth

# Cymorth staffio – Mike Redhouse

## Cwmpas

- Ystyried cyflogau a graddio staff cymorth a staff grŵp a'r ystod o rolau y gall fod eu hangen i gefnogi Aelodau'r Senedd yn y Seithfed Senedd, gan ystyried goblygiadau’r cynigion i ddiwygio'r Senedd.
- Bydd yr adolygiad yn ystyried materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, meincnodi yn erbyn swyddi cymharol, cwmpas ar gyfer hyblygrwydd a symleiddio ar gyfer yr Aelodau, maint y lwfans a pholisïau y mae’r Penderfyniad yn eu mandadu.

## Amserlen: 2023-25

- **Cwblhawyd:**Wedi darparu codiadau costau byw untro o £600 yn 2022-23 ac yn 2023-24, a Lwfans Staffio uwch ar gyfer 2023-24 i ganiatáu i’r Aelodau gyflogi staff ar fand uchaf y tair rôl uchaf.
- **Y camau nesaf**:Ymchwil cymharol i gyflogau a graddio staff yn dechrau yn haf 2023, gyda gwaith ymgysylltu gyda’r Aelodau a staff yn hydref 2023

## Cysylltiadau â Diwygio'r Senedd

- Diwygio etholiadol
- Maint y Senedd

## Materion i’w blaenoriaethu yn y Chweched Senedd

- Ystyried yr hyblygrwydd i’r Aelodau o ran cymhwyso'r fframwaith cyflogau a graddio presennol
- Ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â chyflogau staff yn ystod gweddill y Chweched Senedd
- Adolygu polisïau sydd wedi’u mandadu

## Ymgysylltiad/effaith y Comisiwn

- Cyfanswm y cymorth a ddarperir i’r Aelodau/grwpiau.
- Effaith gyllidebol bosibl

## Materion i’w blaenoriaethu yn y Seithfed Senedd

- Maint y Lwfans Staffio
- Fframwaith cyflogau a graddio sydd a) yn darparu rolau staffio cywir i gefnogi gwaith yr Aelodau, a b) yn helpu i recriwtio a chadw staff â chymwysterau/profiad addas

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol – Jane Roberts

## Cwmpas

- Adolygu'r cymorth a roddir i'r pleidiau gwleidyddol cyn y Seithfed Senedd.
- Ystyried diben y cymorth i'r pleidiau, dadansoddiad cymharol â modelau cyllido seneddol eraill (e.e. arian byr), a'r effaith a'r goblygiadau posibl ar gymorth a staffio'r pleidiau gwleidyddol cyn diwygio'r Senedd, ac yn dilyn hynny. Caiff yr adolygiad ei lywio gan yr adolygiad staffio ehangach sy'n ystyried materion yn ymwneud â thâl a graddio, a recriwtio a chadw staff.

## Amserlen: 2023-25

- **Y camau nesaf**:Gwaith ymchwil cymharol yn dechrau yn haf 2023, gyda gwaith ymgysylltu gyda'r Aelodau a'r grwpiau gwleidyddol yn yr hydref.

## Cysylltiadau â Diwygio'r Senedd

- Model etholiadol
- Cymorth Grŵp
- Adolygu'r Rheolau Sefydlog

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Chweched Senedd

- Unrhyw faterion uniongyrchol sy'n codi o'r adolygiad staffio, e.e. materion recriwtio a chadw
- Goblygiadau paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd i'r grwpiau, a'r effaith arnynt

## Ymgysylltiad/effaith y Comisiwn

- Cyfanswm y cymorth a ddarperir i'r Aelodau/grwpiau.

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Seithfed Senedd

- Diben a chwmpas y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol i gefnogi gweithgarwch seneddol, gan gynnwys ymchwil/datblygu polisi/cyfathrebu ac ymgysylltu
- Cydbwysedd y cymorth a ddarperir – drwy Gomisiwn y Senedd, swyddfeydd yr Aelodau a swyddfeydd grŵp (drwy'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol)
- Strwythur staffio – cysylltiadau â'r adolygiad staffio
- Sail - fformiwla a maint

# Taliadau a chymorth personol i'r Aelodau – Elizabeth Haywood

## Cwmpas

- Gosodir taliadau'r Aelodau yn y Penderfyniad ar gyfer tymor pum mlynedd y Senedd a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir ei newid.
- Bydd yr adolygiad hwn yn casglu tystiolaeth ac yn ceisio barn am unrhyw newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y Seithfed Senedd, gan ystyried unrhyw oblygiadau diwygio'r Senedd o ran nifer yr Aelodau a'u cyfrifoldebau a'r ystod o 'swyddi ychwanegol' sydd â hawl i gyflog ychwanegol. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyflogau Aelodau, cyflogau Gweinidogion a deiliaid swyddi'r Senedd, y Cynllun Pensiwn a Gwariant ar Lety Preswyl, a bydd yn ceisio dileu rhwystrau i gefnogi amrywiaeth.

## Amserlen: 2023-25

- **Cwblhawyd:** nifer y newidiadau i reolau'r Cynllun Pensiwn yn sgil y canllawiau a'r penderfyniadau barnwrol diweddaraf, a hynny ar ôl ymgynghori â'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd ychwanegol o £1,000 ar gyfer costau
- **Y camau nesaf**:Gwaith cymharol cychwynnol yn dechrau yn hydref 2023, gyda rhagor o waith ymchwil gymharol, meincnodi ac ymgysylltu â'r Aelodau yn 2024-25.

## Cysylltiadau â Diwygio'r Senedd

- Nifer yr Aelodau a deiliaid swyddi
- Adolygiadau o'r ffiniau

## Ymgysylltiad/effaith y Comisiwn

- Rhai agweddau ar gymorth e.e. gofalwyr

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Chweched Senedd

- Dim ond newidiadau eithriadol a ganiateir i'r Penderfyniad
- Unrhyw faterion a allai godi o ran y cynllun pensiwn

## Materion i'w blaenoriaethu yn y Seithfed Senedd

- Gwerthuso swyddi a meincnodi tâl Aelodau o'r Senedd
- Tâl y Prif Weinidog a'r Gweinidogion
- Cyflogau deiliaid swyddi (gan gynnwys y Prif Chwip)
- Gwariant ar Lety Preswyl – map/cwmpas
- Cefnogi amrywiaeth

# Amserlen:

# Rhaglen Waith Strategol a Diwygio'r Senedd

| Dyddiad | Diwygio'r Senedd | Rhaglen waith y Bwrdd |
|---|---|---|
| • Hydref 2023 | • Cyflwyno'r Bil | • Efallai y bydd angen tystiolaeth y Bwrdd ar gyfer y Bil<br>• Adolygiad Staffio, Ffyrdd o Weithio a Symleiddio – materion/ymgynghoriad ar gyfer adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad (Chweched Senedd)<br>• Adolygiad y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn dechrau |
| • Gwanwyn 2024 | • Dadl Cyfnod 1 – prawf cyntaf<br>• Cyfnod 2 – cyfnodau diwygio | • Adolygiad Staffio – argymhellion ar faterion recriwtio a chadw/cyflogau a graddio ar gyfer y Seithfed Senedd |
| • Haf 2024 | • Cyfnod 3 – cyfnodau diwygio<br>• Cam 4 – pleidlais derfynol 40/60<br>• Dechrau'r adolygiad o'r ffiniau (paru) | • Adolygiad Staffio – datblygu cynigion ar gyfer cyflogau a graddio ar gyfer y Seithfed Senedd |
| • Hydref 2024- Gwanwyn 2025 | | • Staff Aelodau o'r Senedd a'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol – datblygu cynigion ar gyfer ar gyfer y Seithfed Senedd<br>• Tâl yr Aelodau a deiliaid swyddi, Gwariant Lwfans Preswyl a Chymorth Ychwanegol – cynigion wedi'u datblygu<br>• Symleiddio/Ffyrdd o Weithio – strwythur lwfansau, gan gynnwys y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr<br>• Materion sy'n dod i'r amlwg/ymgynghoriad ar gyfer adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad (Chweched Senedd) |
| • Haf 2025 | • Ffiniau terfynol a dethol ymgeiswyr? | • Penderfyniadau terfynol ar dâl yr Aelodau, strwythur y lwfansau, lefel y lwfansau. |
| • Hydref 2025 | | • Diwedd tymor y Bwrdd<br>• Bwrdd newydd<br>• Ymgynghori ar y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd a'r ffigurau (chwyddiant/mynegeio ac ati) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament